# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-06-07(p3)

### Dyddiad: Dydd Mercher 14 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Fframwaith Arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Diogel ac Effeithlon

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y fframwaith arfaethedig a'i oblygiadau i Gymru.

**Cefndir**

2. Cynnig deddfwriaethol yw hwn, y disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ym mis Mehefin eleni yn dilyn ymgynghoriad. Gellir gweld y ddogfen ar y cyswllt canlynol: http://ec.europa.eu/health/ph_overview/co_operation/mobility/community_framework_en.htm . Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr ond efallai bod cyfle yn parhau i fod ar gael i'r Pwyllgor fynegi barn ar y broses.

3. Mae ymateb Llywodraeth y DU hefyd ar gael ar y wefan.

4. Mae Llys Cyfiawnder Ewrop wedi'i gwneud yn glir bod darpariaethau'r Cytuniad ar ryddid i symud yn berthnasol i wasanaethau iechyd, waeth sut y maent yn cael eu trefnu neu'u cyllido ar lefel genedlaethol. Nod y cynigion yw egluro'r hyn y mae'n ei olygu o ran gwasanaethau iechyd. Byddant yn cynnwys rhyddid cleifion, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau iechyd i symud ac yn canolbwyntio ar ofal trawsffiniol a'i ganlyniadau. Bydd y cynigion hefyd yn darparu cymorth i aelod-wladwriaethau lle y gall camau ar lefel Ewropeaidd wella gwasanaethau, darparu fframwaith clir drwy gyfraith Gymunedol a'u galluogi i fanteisio drwy gydweithio ar draws gwahanol systemau iechyd.

**Yr Ymgynghoriad**

5. Roedd y ddogfen ymgynghori'n ceisio cael gwybodaeth am effaith bresennol (ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol) gofal iechyd trawsffiniol ar hygyrchedd, ansawdd a chynaliadwyedd ariannol systemau gofal iechyd, a sut y gall ddatblygu.

6. Aeth ymlaen i ofyn wyth o gwestiynau pellach ynghylch

(c2) yr angen am eglurder cyfreithiol;

(c3) y materion y dylai’r awdurdodau mewn gwahanol wledydd fod yn gyfrifol amdanynt;

(c4) y cyfrifoldeb am sicrhau diogelwch cleifion lle rhoddir gofal iechyd trawsffiniol;

(c5) sicrhau cysondeb rhwng trin cleifion o Aelod-wladwriaethau eraill a darparu gwasanaethau meddygol a gwasanaethau ysbyty cytbwys sy’n hygyrch i bawb;

(c6) y materion eraill y mae angen mynd i’r afael ?wy yng nghyd-destun penodol gwasanaethau iechyd nad ydynt eisoes wedi cael sylw mewn deddfwriaeth Gymunedol, a hynny o ran rhyddid gweithwyr iechyd proffesiynol i symud neu o ran sefydlu darparwyr gofal iechyd;

(c7) materion eraill lle gellid gwella sicrwydd cyfreithiol yng nghyd-destun pob system iechyd neu system amddiffyn cymdeithasol benodol;

(c8) y modd y dylai camau ar lefel Ewropeaidd helpu i gefnogi systemau iechyd yr Aelod-wladwriaethau a’r gwahanol gyfranogwyr oddi mewn iddynt; ac

(c9) dulliau priodol o fynd i’r afael ?146;r gwahanol faterion sy’n ymwneud ?wasanaethau iechyd ar lefel yr UE, y materion y dylid mynd i’r afael ? hwy drwy ddeddfwriaeth Gymunedol a’r materion y gellid mynd i’r afael ?wy heb fod angen deddfwriaeth.

7. Mae’r cefndir i’r cwestiynau wedi’i gynnwys yn y ddogfen.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2007